


# Rhaglen y Gynhadledd*

## Noson Ychwanegol Ddewisol – Dydd Mawrth 15 Tachwedd 2022

| Amser | Sesiwn |
|---|---|
| 4.00pm - 5.00pm | **Cofrestru ar gyfer y Gynhadledd a'r Gwesty** |
| 7.00pm | **Pryd Bwyd Anffurfiol ac yna ein 'Cwis Tafarn' hwyliog!** |

## Dydd Mercher 16 Tachwedd 2022

| Amser | Sesiwn |
|---|---|
| 8.45 – 10:30am | **Cofrestru ar gyfer y Gynhadledd** |

**Croeso i'r Gynhadledd –** Gosod yr olygfa
David Wilton, Prif Weithredwr TPAS Cymru

**Yn agor y Gynhadledd – Neges gan y Gweinidog:**
**Julie James AS –** Gweinidog Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru –



Clywch yr olwg ddiweddaraf gan Weinidog Llywodraeth Cymru, Julie James AS, sydd â chyfrifoldebau yn cynnwys tai cymdeithasol.

Mae cyfrifoldebau'r Gweinidog yn cynnwys gweithgareddau Awdurdodau Lleol a chymdeithasau tai mewn perthynas â thai. Mae hyn yn cynnwys rheoli tai a dyrannu tai cymdeithasol i fforddiadwy.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Sesiwn Banel Agoriadol

**Rhoi lleisiau tenantiaid wrth wraidd gwasanaethau a phenderfyniadau tai: pam nawr yn fwy nag erioed.**

**Panelwyr**:
- Steve Jones - Prif Weithredwr y Grŵp, Barcud
- Emma Nicholas - Tenant Trivallis
- Kevin Davies - Pennaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd, Senedd

**Cadeirydd y Sesiwn**: Helen White, Prif Weithredwr, Tai Taf

| | |
|---|---|
| 12.00pm-1.15pm | **Cinio**<br>Lluniaeth a Rhwydweithio |

## Sesiwn Gweithdy A:
**Eich dewis o sesiynau gweithdy**

| | |
|---|---|
| **A1** | **Ymateb i gostau byw: Beth yw rôl y sector tai?**<br>Sesiwn Panel a Thrafod<br><br>Wrth i gostau byw esgyn a thlodi gynyddu, beth yw rôl y sector tai wrth leddfu'r pwysau? Ymunwch â ni ar gyfer sesiwn panel a thrafod amserol hwn.<br><br>**Panelwyr:**<br>• Victoria Winckler - Sefydliad Bevan<br>• Jennie Bibbings - Shelter Cymru<br>• Gareth Leech - Cartrefi Conwy<br><br>**Cadeirydd:** Amanda Lawrence, Tenant Cymdeithas Tai Newydd ac Aelod Bwrdd TPAS Cymru |
| **A2** | **Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 - Beth fydd yn ei olygu i chi?**<br><br>Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yw'r newid mwyaf i gyfraith tai yng Nghymru ers degawdau. Beth fydd y gyfraith newydd hon yn ei olygu i chi, i denantiaid a landlordiaid cymdeithasol? Gyda'r gyfraith newydd i fod i gael ei rhoi ar waith ar 1 Rhagfyr 2022 clywch y diweddariadau gan swyddogion Llywodraeth Cymru.<br><br>**Siaradwyr:** Llywodraeth Cymru |
| **A3** | **Rheoleiddio Cymdeithasau Tai: Cyfarfod â'r Rheoleiddiwr**<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn rheoleiddio Cymdeithasau Tai yng Nghymru i ddiogelu tenantiaid a buddsoddiad mewn tai. Dewch i'r gweithdy hwn a chlywed gan Bennaeth Strategaeth a Pholisi Rheoleiddio yn Llywodraeth Cymru. Darganfyddwch sut mae Rheoleiddio yn gweithio ar hyn o bryd, beth mae'r Rheoleiddwyr yn ei weld a sut mae rheoleiddio yn amddiffyn tenantiaid.<br><br>**Siaradwr:** Ian Walters, Pennaeth Strategaeth a Pholisi Rheoleiddio yn Llywodraeth Cymru |
| **A4** | **Sut i leihau eich biliau ynni a chadw eich cartref yn iach**<br><br>Mae cartref iach sy'n gynnes yn bwysig i bawb ac yn gwneud gwahaniaeth enfawr i iechyd a lles pobl. Yn ystod y gweithdy hwn, bydd Cymru Gynnes yn darparu cymorth a chyngor ymarferol i alluogi a grymuso trigolion i leihau eu biliau ynni |

| | |
|---|---|
| | er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o dlodi tanwydd a chadw cartrefi'n gynnes y gaeaf hwn.<br><br>**Siaradwr**: Aled Jenkins a Joanna Seymour, Cymru Gynnes |
| **A5** | **Creu digwyddiadau cymunedol cyffrous (mae pobl eisiau mynd iddyn nhw!)**<br><br>Gall fod yn nerfus iawn peidio gwybod os fydd pobl yn troi fyny i weithgaredd cymunedol a/neu ymgysylltu yr ydych wedi rhoi cymaint o waith i mewn iddo. Mae hefyd yn anodd iawn gwybod os yw pobl wedi cael amser da ac a fyddent yn dod yn ôl eto! Yn y gweithdy hwn byddwn yn archwilio beth sy'n gwneud profiad cofiadwy a chyffrous, a sut y gallwch chi wneud defnydd da o'r rhain yn eich digwyddiadau a'ch gweithgareddau.<br><br>**Siaradwr:** Sam Evans, Aelod Cysylltiol TPAS Cymru |
| 2.30 - 3:15pm | **Egwyl am luniaeth** |
| **Sesiwn Gweithdy B:**<br>**Eich dewis o sesiynau gweithdy** | |
| **B1** | **Y Ddadl Fawr: Sero Net mewn Tai a'ch cartrefi**<br>Sesiwn Panel a Thrafod<br><br>Sero Net yw'r pwnc mwyaf sy'n wynebu tai a'n cymunedau am y 15 mlynedd nesaf. Beth fydd dyfodol tai ynni isel a beth mae'n ei olygu i CHI? Ymunwch â ni yn y sesiwn holi-ac-ateb gyffrous hon gyda phanel o arbenigwyr sy'n cynnwys siaradwyr o Lywodraeth Cymru, Sero, a TPAS Cymru. Byddwn yn trafod y cwestiynau anodd wrth i ni edrych ar bresennol a dyfodol Sero Net. Ni ddylid ei golli!<br><br>**Panelwyr:**<br>• Malcolm Davies - Llywodraeth Cymru<br>• Daniel Dunning - Llywodraeth Cymru<br>• Hannah Richardson - TPAS Cymru<br>• David Wilton - TPAS Cymru<br>• James Williams - Sero |
| **B2** | **Diolch am roi gwybod i ni': ymateb i gwynion mewn 6 cham hanfodol'**<br><br>Bydd Matt Harris, Pennaeth Safonau Cwynion yn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn trafod yr hyn y mae'n ei feddwl sy'n ddull da o ymdrin â chwynion mewn tai - sefydlu paramedrau, pwyso a mesur tystiolaeth, gwneud penderfyniadau, ac ysgrifennu ymatebion.<br><br>**Siaradwr:** Matt Harris, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru |
| **B3** | **Sut rydym yn rhoi Tenantiaid wrth wraidd y broses o gynllunio gwasanaethau a phenderfyniadau strategol**<br>Sesiwn Astudiaethau Achos<br><br>Yn y sesiwn hon byddwn yn clywed gan 2 landlord cymdeithasol am eu hymagwedd at gynnwys tenantiaid: |

| | |
|---|---|
| | 1. Bydd aelodau Grŵp Monitro Barcud yn siarad am eu gwaith fel corff cynrychioli Tenantiaid annibynnol a sut maent wedi dylanwadu ar wasanaethau a phenderfyniadau yn Barcud dros nifer o flynyddoedd.<br>2. Bydd Linc yn rhannu sut y maent yn gosod cwsmeriaid wrth wraidd y broses o gynllunio gwasanaethau a gwneud penderfyniadau strategol. Byddant yn cyffwrdd â'r gwaith y maent wedi'i wneud ar draws cymunedau i ddeall yr hyn sy'n bwysig i denantiaid, ynghyd â'r siwrnai y mae'r grŵp Strategol Tenantiaid yn ei chymryd i gryfhau eu cyfranogiad mewn materion strategol.<br><br>**Siaradwyr**:<br>• Paul Clasby a Peter Deakin – Grŵp Monitro Barcud<br>• Karen Jeffries – Cymdeithas Tai Linc Cymru |
| **B4** | **Annhegwch tlodi – sut gallwn ni ei newid?**<br>Mae'r gair 'tlodi' yn un a glywn yn gyson ac mewn gwahanol ffyrdd; tlodi tanwydd, tlodi bwyd, tlodi plant a mwy. Ond a oeddech chi'n gwybod nad yw tlodi'n effeithio ar bawb yn gyfartal? Mae'r realiti i rai grwpiau o bobl yn golygu gorfod talu llawer mwy nag eraill, ar ben costau presennol.<br><br>Mae'r sesiwn hon yn edrych ar sut mae tlodi ac anghydraddoldeb yn gysylltiedig â'i gilydd; beth mae'n ei olygu'n ymarferol i bobl anabl, lleiafrifoedd ethnig a grwpiau eraill sy'n wynebu tagiau pris uwch; ac yn trafod rhai o'r atebion y mae sefydliadau yn eu rhoi ar waith i droi'r llanw ar dlodi a sut y gall grwpiau tenantiaid chwarae eu rhan.<br><br>**Siaradwyr:** Ceri Meloy a Ross Thomas, Tai Pawb |
| **B5** | **Disgleirio'ch Goleuni - bod â'r hyder i wneud gwahaniaeth cadarnhaol lle rydych chi'n byw**<br><br>Mae cymryd camau i wneud eich cymuned yn lle gwell, neu drefnu gweithgareddau ar gyfer eraill lle rydych chi'n byw, yn gofyn am ddosau rheolaidd o hyder. Yn y sesiwn hon byddwn yn edrych yn fanwl ar y syniad o 'arweinyddiaeth', neu 'ddisgleirio'ch goleuni', gan y gallai fod yn ddefnyddiol meddwl amdano. Paratowch i'ch steil unigryw gael ei ddathlu wrth i ni archwilio gyda'n gilydd beth sydd ddim yn arweinyddiaeth, yr holl wahanol ffyrdd y gall ymddangos a beth mae'n ei olygu i chi a phwy ydych chi.<br><br>**Siaradwr**: Sam Evans, Aelod Cysylltiol TPAS Cymru |
| 4.30pm | **Diwedd Dydd 1** |
| 7.00pm | **Cinio'r Gynhadledd ac yna Cerddoriaeth Fyw** |

** rhaglen yn amodol ar fân newidiadau*

## Dydd Iau 17 Tachwedd 2022

| Amser | Sesiwn |
|---|---|
| 8.30 – 9.30am | **Cofrestru ar gyfer y Gynhadledd** |
| **Sesiwn Gweithdy C:**<br>**Eich dewis o sesiynau gweithdy** | |
| **C1** | **Eich Rhent – Eich Barn**<br>Sesiwn astudiaeth achos<br>Nôl yn 2020, Dechreuodd Cyngor Caerffili eu harolwg cyntaf erioed i ddarganfod beth oedd barn ei denantiaid am eu rhent. Roedd y cyngor eisiau gwybod a oedd yn deg, yn fforddiadwy ac a oedd y gwasanaeth a roddant yn werth am arian. Fe ddefnyddion nhw bôl piniwn, arolygon a sesiynau trafod i barhau i ofyn y cwestiynau hyn. Nawr mae'n 2022 ac mae'r argyfwng costau byw gyda ni, felly mae'n bwysicach fyth deall yr heriau y mae tenantiaid yn eu hwynebu. Bydd y gweithdy hwn yn amlinellu'r gweithgareddau a'r sianeli cyfathrebu a ddefnyddiwyd ganddynt i ymgysylltu. Bydd hefyd yn archwilio'r hyn y maent wedi'i ddysgu a'i newid o'r adborth, a'r hyn y gallant ei wneud yn well yn 2023!<br>**Siaradwyr**: Gail Taylor, Liz Bayliss a Sandra Isaacs - Tîm Cartrefi Caerffili |
| **C2** | **Gwerth am Arian mewn Tai: mesur ac arddangos GaA**<br>Gyda fforddiadwyedd rhent ac argyfwng 'costau byw' yn effeithio ar renti, sut y gallai landlordiaid cymdeithasol fesur gwerth am arian a dangos eu bod yn cyflawni gwerth am arian wrth ddarparu eu gwasanaethau tai. Ymunwch â ni ar gyfer y gweithdy rhyngweithiol hwn lle byddwn hefyd yn edrych ar yr hyn sy'n bwysig i denantiaid o ran gwerth am arian.<br>**Siaradwr**: David Lloyd, TPAS Cymru |
| **C3** | **Clywed y cyfan!...Y newyddion diweddaraf a diweddariadau hanfodol ar faterion mawr tai yng Nghymru**<br>Ymunwch â ni ar gyfer y gweithdy rhyngweithiol ac addysgiadol hwn gan Matt Dicks Cyfarwyddwr Sefydliad Tai Siartredig Cymru. Clywch y newyddion diweddaraf gan STS a chael gwybod beth yw'r problemau mawr ym maes tai cymdeithasol yng Nghymru ar hyn o bryd. Bydd cyfle hefyd i chi ofyn cwestiynau am STS.<br>**Speaker**: Matt Dicks, Cyfarwyddwr y Sefydliad Tai Siartredig Cymru |
| **C4** | **Sut i leihau eich biliau ynni a chadw eich cartref yn iach**<br>Ailadroddiad o'r sesiwn<br>Mae cartref iach sy'n gynnes yn bwysig i bawb ac yn gwneud gwahaniaeth enfawr i iechyd a lles pobl. Yn ystod y gweithdy hwn, bydd Cymru Gynnes yn darparu cymorth a chyngor ymarferol i alluogi a grymuso trigolion i leihau eu biliau ynni er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o dlodi tanwydd a chadw cartrefi'n gynnes y gaeaf hwn.<br>**Siaradwr**: Aled Jenkins a Joanna Seymour, Cymru Gynnes |
| **C5** | **10 gweithgaredd cymunedol hawdd y gallech eu gwneud yfory**<br>Mae gan lawer ohonom yr awydd i wneud rhywbeth hwyliog neu gadarnhaol lle |

| | |
|---|---|
| | rydych chi neu'ch tenantiaid yn byw, yn aml y broblem yw nad ydych yn gwybod ble i ddechrau neu ddim syniad i gychwyn. Bydd y sesiwn hon yn mynd â chi drwy 10 syniad syml a chost isel y byddwch chi'n awyddus i'w rhoi ar waith pan fyddwch chi'n cyrraedd adref – efallai y byddwn ni hyd yn oed yn rhoi cynnig ar un nawr!<br><br>**Siaradwr:** Sam Evans, Aelod Cysylltiol TPAS Cymru |
| 10.45 – 11.30am | **Egwyl am luniaeth** |
| **Sesiwn Gweithdy D:<br>Eich dewis o sesiynau gweithdy** | |
| **D1** | **Oes ots neu ddim? Beth sy'n bwysig i Denantiaid yng Nghymru?**<br><br>Yn y sesiwn hon, rydym eisiau eich Safbwyntiau CHI ar nifer o bynciau. Rydym eisiau sefydlu ymwybyddiaeth tenantiaid o faterion cyfoes a gofyn i chi a yw'r rhain yn bwysig i chi ai peidio. Mae'n gyfle i ddweud eich dweud a siapio ymgyrchu TPAS Cymru. Swnio'n ddiddorol? Dyma sut bydd y gwaith sesiwn yn gweithio:<br><br>1. Byddwn yn cyflwyno achos o blaid ac yn erbyn ar bwnc<br>2. Byddwch wedyn yn cael cyfle i ychwanegu rhai safbwyntiau o blaid neu yn erbyn<br>3. Yna rydych chi'n pleidleisio i ddweud os oes ots gennych neu ddim'.<br><br>Bydd y sesiwn yn rhyngweithiol, yn hwyliog ac yn ymdrin ag ystod o bynciau.<br><br>**Siaradwyr:** David Wilton ac Eleanor Speer, TPAS Cymru |
| **D2** | **Datblygu Cymunedol Crefftus**<br><br>Dewch i glywed sut mae Tai Cymru a'r Gorllewin yn cyfuno crefft gyda datblygiad cymunedol!! Yn ystod y gweithdy bydd Claire Hammond, Swyddog Strategaeth Cyfranogiad Preswylwyr, yn siarad am rywfaint o'r gwaith datblygu cymunedol gwych sydd wedi'i wneud ganddynt, tra bod tenantiaid yn rhannu rhai o'r gweithgareddau crefft y gellir eu defnyddio ar gyfer ymgynghori, rhannu gwybodaeth a meithrin ymddiriedaeth gyda chymunedau a phreswylwyr.<br><br>**Speakers:** Claire Hammond a Thenantiaid o Dai Cymru a'r Gorllewin |
| **D3** | **Pantris y Dyffryn - bwydo teuluoedd ac arbed bwyd o safleoedd tirlenwi**<br>Sesiwn astudiaeth achos<br><br>Mae Pantris y Dyffryn yn gynllun pantri cymunedol arobryn sy'n cwmpasu holl ardal awdurdod unedol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'n bartneriaeth rhwng y cwmni budd cymunedol Baobab Bach, Linc, a mwy nag 20 o sefydliadau partneriaeth eraill, yn bennaf grwpiau cymunedol. Mae tua 300 o gartrefi yn cael bagiau wythnosol o fwyd, a hyd yn hyn mae mwy na 100 tunnell o fwyd wedi'i ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi. Mae 75 a mwy o wirfoddolwyr yn rhan o'r cynllun.<br><br>Yn y gweithdy hwn mae Alison Starling o Linc yn esbonio beth sydd mor arbennig am y pantris a sut y gellir ailadrodd y prosiect mewn mannau eraill.<br><br>**Speaker**: Alison Starling, Linc Cymru |
| **D4** | **Sero Net: beth mae'r cyfan yn ei olygu i chi a'ch cartref**<br><br>Mae Sero Net yn bwnc sy'n tyfu yn y sector tai gyda phryderon cynyddol am sut mae Cymru'n mynd i frwydro yn erbyn newid hinsawdd a'r argyfwng ynni. Mae |

| | |
|---|---|
| | yna lawer o dermau yn y gofod Sero Net a all fod yn ddryslyd. Beth yw 'ôl-osod' neu 'datgarboneiddio?' Bydd y sesiwn ragarweiniol hon yn helpu i ddadbacio'r jargon a'r termau sy'n dilyn Net Zero a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am yr hyn sydd angen i chi ei wybod.<br><br>**Speaker** – Hannah Richardson, Swyddog Ymgysylltu Sero Net, TPAS Cymru |
| **D5** | **Disgleirio'ch Goleuni - bod â'r hyder i wneud gwahaniaeth cadarnhaol lle rydych chi'n byw**<br><br>Ailadroddiad o'r sesiwn<br><br>Mae cymryd camau i wneud eich cymuned yn lle gwell, neu drefnu gweithgareddau ar gyfer eraill lle rydych chi'n byw, yn gofyn am ddosau rheolaidd o hyder. Yn y sesiwn hon byddwn yn edrych yn fanwl ar y syniad o 'arweinyddiaeth', neu 'ddisgleirio'ch goleuni', gan y gallai fod yn ddefnyddiol meddwl amdano. Paratowch i'ch steil unigryw gael ei ddathlu wrth i ni archwilio gyda'n gilydd beth sydd ddim yn arweinyddiaeth, yr holl wahanol ffyrdd y gall ymddangos a beth mae'n ei olygu i chi a phwy ydych chi.<br><br>**Siaradwr**: Sam Evans, Aelod Cysylltiol TPAS Cymru |
| 12.45 – 1.45pm | **Cinio** |
| **Y sesiwn Derfynol: Tecawê Fawr y Gynhadledd**<br><br>Peidiwch â cholli ein sesiwn ryngweithiol olaf wrth i ni archwilio sut y gallwn ni i gyd helpu i ateb yr heriau y mae tai a chymunedau yn eu hwynebu, wrth i ni feddwl am ddyfodol tai yng Nghymru yn 2023.<br><br>Efallai y byddwch hefyd yn mynd adref gyda gwobr yn Raffl Fawr ein sesiwn derfynol! | |
| 3.00pm | **Cau'r Gynhadledd** |

** rhaglen yn amodol ar fân newidiadau*

**Noddwyr Arweiniol**

**Noddwyr Llais y Tenant**

Tai Wales & West Housing

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

pobl
people making a difference